

2022 RHIF 1119 (CY. 234)

2022 No. 1119 (W. 234)

**TRAFFIG FFYRDD, CYMRU**

**ROAD TRAFFIC, WALES**

Gorchymyn yr A5 Bethesda -  
Ffordd Bangor (Terfyn Cyflymder  
40 mya) 2022

The A5 Bethesda - Bangor Road  
(40 mph Speed Limit) Order 2022

*Gwnaed* 1 Tachwedd 2022

*Made* 1 November 2022

*Yn dod i rym* 2 Tachwedd 2022

*Coming into force* 2 November 2022

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A5, a thrwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 84(1)(a), (2) a 124(1)(d) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a pharagraff 27(1) o Atodlen 9 iddi, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A5 trunk road, and in exercise of the powers conferred upon them by sections 84(1)(a), (2) and 124(1)(d) of, and paragraph 27 of Schedule 9 of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Gogledd Cymru ac wedi rhoi hysbysiad cyhoeddus o'u bwriad i wneud y Gorchymyn hwn yn unol ag adran 84(2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 a rheoliadau 5(1) a 6(1) o Reoliadau Gorchymynion Traffig yr Ysgrifennydd Gwladol (Gweithdrefn) (Cymru a Lloegr) 1990(2).

The Welsh Ministers have consulted with the Chief Officer of North Wales Police and given public notice of their intention to make this Order in accordance with section 84(2) of the Road Traffic Regulation Act 1984 and regulations 5(1) and 6(1) of the Secretary of State's Traffic Orders (Procedure) (England and Wales) Regulations 1990(2).

**Enwi a Chychwyn**

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn yr A5 Bethesda - Ffordd Bangor (Terfyn Cyflymder 40 mya) 2022 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 2 Tachwedd 2022.

**Title and Commencement**

1. The title of this Order is the A5 Bethesda - Bangor Road (40 mph Speed Limit) Order 2022 and this Order comes into force on 2 November 2022.

**Dehongli**

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

**Interpretation**

2. In this Order—

"exempted vehicle" ("*cerbyd esempt*") means:

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 84(1) gan adran 45(2) o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1991 (p. 40). Amnewidiwyd Adran 84(2) gan baragraff 61 o Atodlen 8 i Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22). Yn rhinwedd O.S. 1999/672 ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.  
(2) O.S. 1990/1656.

(1) 1984 c. 27; section 84(1) was substituted by the Road Traffic Act 1991 (c. 40), section 45(2). Section 84(2) was substituted by the New Roads and Street Works Act 1991 (c. 22), Schedule 8, paragraph 61. By virtue of S.I. 1999/672 and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.  
(2) S.I. 1990/1656.

- (a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1);
- (b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—
  - (i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu
  - (ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw cefnffordd yr A5 Llundain i Gaergybi; ac

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

## Cyfyngiad

3. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o gefnffordd yr A5 wrth Ffordd Bangor, o bwynt 22 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt y ffordd ddi-ddosbarth sy'n arwain at Dregarth ym Mhont y Pandy / Halfway Bridge, hyd at bwynt 431 o fetrau i'r de o'i chyffordd â'r ffordd fynediad i waith trin carthion Dolgoch.

## Dirymu

4. Mae Gorchymyn Cefnffordd Llundain – Caergybi (yr A5) (Bethesda, Bangor, Gwynedd) (Terfyn Cyflymder 40 MYA) 2006(2) wedi ei ddirymu.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 1 Tachwedd 2022



Nicci Hunter

Arweinydd y Tîm Busnes  
Llywodraeth Cymru

- (1) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29 o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22), ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).
- (2) O.S. 2006 Rhif 1502 (Cy. 146).

- (a) any vehicle being used for the purposes described in section 87 of the Road Traffic Regulation Act 1984(1);
- (b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—
  - (i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or
  - (ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;

“special forces” (“*lluoedd arbennig*”) means those units of the armed forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director; and

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A5 London to Holyhead Trunk Road;

## Restriction

3. No person may drive any motor vehicle, other than an exempted vehicle, at a speed exceeding 40 miles per hour on the length of the A5 trunk road at Bangor Road, from a point 22 metres east of the centre-point of the unclassified road leading to Tregarth at Pont Y Pandy / Halfway Bridge, to a point 431 metres south of its junction with access road to Dolgoch sewage works.

## Revocation

4. The London – Holyhead Trunk Road (A5) (Bethesda, Bangor, Gwynedd) (40 MPH Speed Limit) Order 2006(2) is revoked.

Signed on behalf of the Deputy Minister for Climate Change, acting under the authority of the Minister for Climate Change, one of the Welsh Ministers.

Dated

1 November 2022



Nicci Hunter

Business Team Leader  
Welsh Government

- (1) Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act 2004 (c. 21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c. 15), Schedule 4, paragraph 42, the Crime and Courts Act 2013 (c. 22), Schedule 8, paragraph 29, and the Deregulation Act 2015 (c. 20), section 50(4) and (5).
- (2) S.I.2006 No. 1502 (W.146).

